**12.1** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **11LPA212B/CC** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Anglesey Three Towns Projects**
**Structures & Highways**
**Anglesey County Council**
**Council Offices**
**Llangefni**
**LL77 7TW**

Creu mynedfa newydd ynghyd a ail wampio y maes parcio presennol yn

Creation of a new vehicular access together with a new layout to the existing car park at

Salem St, Amlwch



**Pwyllgor Cynllunio: 01/12/2010**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (JBR)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cais gan yr Awdurdod Lleol.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r cais hwn yn ymwneud â maes parcio cyhoeddus oddi ar Stryd Salem, Amlwch.

Cais ydyw i adeiladu mynedfa newydd i gerbydau i mewn i'r maes parcio o'r A5025.

**2. Mater(ion) Allweddol**

A yw'r fynedfa newydd arfaethedig yn dderbyniol o safbwynt diogelwch y brifford.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

1 – Polisi Cyffredinol

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

FF9 – Gwelliannau amgylcheddol
FF10 – Parcio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
TR3 – Dylunio Priffyrdd

TAN 18: Trafnidiaeth

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb adeg ysgrifennu'r adroddiad
Dwr Cymru – Caniatad amodol
Cyngor Cymuned – Dim gwrthwynebiad / Sylwadau
Priffyrdd – Caniatad amodol
Draenio – Sylwadau

Ymateb i Gyhoeddusrwydd

Derbyniwyd dau lythyr gyda'r prif bwyntiau a godwyd fel a ganlyn:

- Pwy yw’r ymgeisydd, pwy sy’n cyllido’r prosiect ac a yw gwariant yn angenrheidiol.
- Tra nad yw yn erbyn y cynnig mae yna opsiynau eraill sy’n costio llai.
- Mae’r gwelededd o’r fynedfa bresennol yn wael ac yn cael ei guddio’n rheolaidd gan draffig.
- Dylid darparu cylchdro bychan yn y fynedfa newydd.
- ni chafwyd unrhyw ymgynghori gyda thrigolion am y cynnig.

Cafodd y llythyrau eu hanfon ymlaen i’r ymgeisydd am ei sylwadau ac y mae copïau o’r llythyrau ac ymateb yr ymgeisydd wedi’u cynnwys yn y pecyn llythyrau.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

11LPA212B/DC – Creu maes parcio ar dir yn Salem St, Amlwch – Dim Gwrthwynebiad – 27.5.88

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Mae’r cynnig hwn yn golygu adeiladu mynedfa newydd i gerbydau i mewn i’r maes parcio cyhoeddus o A5025.

Mae’n anodd mynd i mewn trwy’r fynedfa bresennol oddi ar Stryd Salem. Mae’r newidiadau i’r fynedfa yn golygu ail-alinio’r ffordd sy’n mynd i mewn i rwystro i fysus ei defnyddio a darparu ramp cyflymder a gosod bolardiau y gellir eu gosod a’u tynnu i ffwrdd. Y bwriad yw y bydd y fynedfa hon ar gyfer cerddwyr yn unig ond trwy roi bolardiau y gellir eu gosod a’u symud, fe ellir caniatáu i’r fynedfa hon gael ei defnyddio yn y dyfodol os bydd angen.

Nid yw’r adran priffyrdd wedi gwrthwynebu’r cynnig ac y mae wedi argymell rhoi caniatâd amodol.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol gyda’r amodau a osodir.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid adeiladu’r fynedfa i’r A5025 gyda’i graddiant heb fod yn fwy na 1 mewn 20 am y 10 metr cyntaf yn ôl o ochr i mewn y gerbydlon gyfagos.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd er lles diogelwch y ffordd.

**(03) Ni chaniateir i ddŵr wyneb lifo yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol i’r sustem garthffosiaeth gyhoeddus onibai y gytunwyd yn ysgrifenedig gyda’r awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Atal gormod o ddŵr rhag llifo i'r sustem garthffosiaeth gyhoeddus, gwarchod iechyd a diogelwch preswylwyr a sicrhau na chaiff yr amgylchedd ei niweidio.

**(04) Ni chaiff dŵr draenio tir arllwys yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol i’r system garthffosiaeth gyhoeddus.**

Rheswm: Rhwystro gormod o ddŵr rhag llifo i'r system garthffosiaeth gyhoeddus a llygru'r amgylchedd.

**(05) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 22.9.10 & 27.10.10 o dan cais cynllunio rhif. 11LPA212B/CC.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

## 9. Polisïau Perthnasol Eraill

Dim

## 10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd

Dim

## 12.2 Gweddill y Ceisiadau — Remainder Applications


Rhif y Cais: **11LPA939/AD/CC** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Head of Service (Economic Development)**
**c/o Mr Matthew Jones**
**Imagemakers**
**The Old School**
**Sticklepath**
**Okehampton**
**Devon**
**EX20 2NJ**

Codi panel gwybodaeth ar dir yn — Erection of an information panel on land at

Mona St, Amlwch



**Pwyllgor Cynllunio: 01/12/2010**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (JBR)**

**Argymhelliad:**

Caniatau.

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais yw hwn i godi panel gwybodaeth ar dir ger y groeslon rhwng Stryd Mona a’r A5025.

**2. Mater(ion) Allweddol**

A yw lleolir panel gwybodaeth yn y lleoliad hwn yn dderbyniol o safbwynt mwynderau a diogelwch y briffordd.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

1 – Polisi Cyffredinol
22 – Hysbysebion

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D4 – Lleoliad, Gosodiad a Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

SG10 – Hysbysebion.

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu’r adroddiad.
Cyngor Cymuned – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu’r adroddiad.
Priffyrdd – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu’r adroddiad.

Ymateb i Gyhoeddusrwydd

Dim wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu’r adroddiad.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Dyluniad**

Mae'r panel gwybodaeth o ddyluniad lectern wedi'i wneud o ddur gloyw fydd wedi'i orchuddio gyda chot o bowdr lliw brown.
Nid ydym yn ystyried y bydd y panel gwybodaeth arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau'r ardal.

**Priffyrdd**

Nid ydym yn ystyried y bydd panel gwybodaeth arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch y briffordd.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Mae caniatâd yn cael ei rhoi am gyfnod o 5 mlynedd yn cychwyn ar ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: I gydymffurfio gyda Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 2007.

**(02) Rhaid cadw unrhyw hysbysebion a arddangosir, ac unrhyw safle a ddefnyddir i arddangos hysbysebion, yn lan a thaclus ac wrth fodd yr awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(03) Rhaid cadw unrhyw strwythur neu hordin a godir neu a ddefnyddir er mwyn arddangos hysbysebion mewn cyflwr diogel.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(04) Lle bo angen tynnu hysbyseb i lawr dan y Rheoliadau hyn, rhaid eu tynnu i lawr mewn ffordd a fydd wrth fodd yr awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(05) Ni chaniateir arddangos hysbyseb heb ganiatâd perchennog y safle neu unrhyw berson arall a budd yn y safle sydd a hawl i roi caniatâd.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(06) Ni chaniateir gosod nac arddangos yr hysbyseb mewn modd a fydd yn cuddio, neu'n amharu ar ddehongliad unrhyw arwydd traffig ffordd.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder ac hefyd yn cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd er lles diogelwch cerbydau a cherddwyr.

**(07) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 29.10.10 o dan cais cynllunio rhif 11LPA939/AD/CC.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim.

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim.

**12.3** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **12C368A** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Watkin Jones**
**c/o Wallach Horsewood Partnership**
**Unit 13A Mollington Grange**
**Parkgate Road**
**Mollington**
**Chester**
**CH1 6NP**

Adfer a ail-ddatblygu i 43 fflat hunan gynhaliol ynghyd a chreu mynedfa newydd i geir ac i gerddwyr yn

Restoration and re-development into 43 self contained apartments together with the construction of a new vehicular and pedestrian access at

Baron Hill, Beaumaris



**Pwyllgor Cynllunio: 01/12/2010**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (DPJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae’r cais hwn yn dod gerbron y Pwyllgor Cynllunio oherwydd y maint a sensitifrwydd y datblygiad.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae’r cais yn ymwneud ag adeilad rhestredig graddfa 2* a’i libart sydd mewn cyflwr difrifol.

Cais yw hwn i addasu’r hen blasty yn 43 o unedau preswyl hunangynhwysol. Byddai’r fynedfa i gerbydau ar hyd mynedfa newydd yn arwain o’r datblygiad i Ffordd Henllys.

Bwriedir gwneud gwaith gwella a thrwsio i’r arboretwm ac adeiladau eraill fel rhan o’r cais. Byddai hawl wedyn i’r cyhoedd ddod i’r mannau hyn.

**2. Mater(ion) Allweddol**

- Pa mor dderbyniol yw’r gwaith addasu arfaethedig
- Adeilad Rhestredig ac Archeoleg
- Tai Fforddiadwy
- Cadwraeth Natur
- Coed a Nodweddion Tirlunio
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
- Priffyrdd, Parcio a Throi
- Llifogydd a Draenio Dŵr wyneb.
-

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D1 – AHNE
D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad
D10 – Fflora a Ffawna
D14 – Coedlannau Dail Llydan
D15 – Archeoleg
D21 – Adeilad Rhestredig
D24 – Ardal Gadwraeth
FF11 – Cynhyrchu Traffig
FF12 – Darparu Parcio
D21 – Adeiladau Rhestredig
D27 – Addasu Adeiladau Di-Preswyl
D28 – Llechi Mwynol Naturiol
D29 – Safon Uchel o Ddyluniad
FF12 – Darpariaeth Parcio

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

1 – Cyffredinol
26 – Parcio Ceir
32 – Tirlun
33 – Cadwraeth Natur
35 – Cadwraeth Natur
41 - Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol a Hanesyddol Arbennig
42 – Dyluniad
55 – Addasiadau

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**

GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
GP2 – Dyluniad
EN6 – Safleoedd Cenedlaethol
EN13 – Cadwraeth Adeiladau
EN14 – Gorchmynion Cadw Coed a Gwrychoedd
EN16 – Nodweddion Tirlun o bwysigrwydd mawr i fflora a ffawna
TR10 – Safonau Parcio

**Polisi Cynllunio Cymru (2010)**

**Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio**

**Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 12: Dyluniad**

**Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 18: Cludiant**

**Cylchlythyr 61/96 "Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth"**

**Safonau Parcio Ynys Môn (2008)**

**Cyfarwyddyd Dylunio Cyngor Sir Ynys Môn**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Cyngor Cymuned – Yn croesawu'n fawr y gwaith o adfer yr adeilad hanesyddol pwysig hwn ac agor yr arboretwm i'r cyhoedd.

Priffyrdd - Caniatâd amodol.

Draenio – Fe sefydlwyd ei bod yn bosib cysylltu i'r system ddraenio oddi ar y safle a hefyd y bydd llif y dŵr wyneb a gynhyrchir o'r datblygiad yn cael ei hidlo. O ganlyniad, ni fyddai gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r cais y mae'r amod yn rhoi sylw i hyn.

Fodd bynnag, yn ychwanegol i'r amod yn gofyn am i unrhyw waith trwsio gael ei wneud i'r bibell arllwys, bydd angen hefyd gofyn bod manylion adeiladu a dyluniad yn cael eu darparu ar gyfer y cynlluniau draenio a fwriedir i wasanaethu'r eiddo, y mannau parcio a'r ffordd sy'n rhoi mynediad.

Dylai'r dyluniadau manwl hyn gael eu cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn bod unrhyw waith adeiladu'n dechrau ar y safle.

Dŵr Cymru - Mae'r trefniadau draenio carthffosiaeth yn dderbyniol mewn egwyddor. Mae'n ymddangos bod llif dŵr wyneb i'w arllwys trwy'r cwlfert presennol 375mm diametr, i'r môr. Felly dim sylw i'w wneud ar y cynigion hyn. Fodd bynnag, pe bai'r cynigion yn newid a bod angen cysylltu gyda'r system garthffosiaeth gyhoeddus, yna byddem yn dweud wrthych am gysylltu gyda ni gyda'ch cynlluniau newydd.

Asiantaeth yr Amgylchedd - Yr unig bryder yw'r llwybr draenio oddi ar y safle. Ceir ar ddeall bod yr arllwysiad gwirioneddol i'r môr y cyfeirir ato yn y lluniad (BP/BH/01) wedi bod yn destun gwaith gwella gan eich awdurdod. Cymerir yn ganiataol felly bod yr arllwysiad/Gwyrdd yn ddigonol i arllwys llif neu i storio'r llif oherwydd y llanw.

Mae'r dyluniad yn cyfeirio hefyd at yr "Arllwysiad Preifat 375mm" a "Lleoliad, Maint a Chyflwr yr Arllwysiad Môr Presennol i'w gadarnhau ar ddyddiad yn y dyfodol". Fe ddylai eich Adran Ddraenio mewn ymgynghoriad gyda'r datblygwr fedru cadarnhau bod y draenio arfaethedig rhwng y lle storio ar y safle a'r arllwysfa môr yn strwythurol gadarn ac nad oes yna unrhyw rwystrau ar hyd y llwybr.

Pebai'n cael ei gadarnhau bod y system ddraenio bresennol yn dderbyniol, rydym yn argymell rhoi caniatâd amodol.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru - Mae aliniad y trac sy'n rhoi mynediad o'r briffordd gyhoeddus i'r datblygiad, yr arolwg ystlumod a thylluanod wedi'u derbyn.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru wrthwynebiad yn parhau ar y cais cynllunio nes y gellir datrys y materion gyda'r ystlumod.

Tai - Fe gyflwynwyd gwerthusiad ariannol gan yr ymgeiswyr. O ystyried cefnogaeth Cyngor Sir Ynys Môn i'r datblygiad oherwydd arwyddocâd hanesyddol yr adeilad a manteision economaidd ac amgylcheddol tymor hir i'r ardal a'r Ynys. O ystyried lefel isel y dychweliad a nodir yn y gwerthusiad, a'r risgiau sylweddol i'r prosiect, nid yw'r Cyngor yn gofyn am unrhyw gyfraniad tai fforddiadwy.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd – Caniatâd amodol.

Gwasanaeth Tân – Caniatâd amodol yn gofyn am osod hydrantau tân.

## 5. Hanes Cynllunio Perthnasol

12C368B/LB – Caniatâd adeilad rhestredig i adfer ac ailddatblygu yn 43 o apartmentau hunangynhwysol – Caniatâd amodol 13.08.10.

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

### Cyd-destun

Mae'r cais yn ymwneud ag adeilad rhestredig graddfa 2 sydd mewn cyflwr difrifol.

### Pa mor Dderbyniol yw'r Gwaith Addasu Arfaethedig

Mae Polisi 56 o Gynllun Lleol Ynys Môn yn caniatáu i adeiladau mawr gael eu haddasu yn fflatiau ond yn amodol ar y meini prawf rhestredig ac ar Gyfarwyddyd Cynllunio Atodol y Cyngor ar Isrannu

Adeiladau i Bwrpasau Preswyl.

Ystyrir bod yr arolwg strwythurol yn dangos y gall yr adeilad gael ei addasu a bod y gwaith addasu ac ymestyn yn unol â'r polisïau a restrir uchod.

**Adeilad Rhestredig ac Archaeoleg**

Mae'r adeilad sy'n destun y cais yn un Rhestredig Graddfa 2 ac wedi'i leoli o fewn yr Ardal Gadwraeth. Mae Swyddog Cadwraeth y Cyngor a Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd yn cefnogi'r cais a chredir bod y cynnig yn cyd-fynd â'r polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol, gyda'r amodau sy'n cael eu hargymell.

**Tai Fforddiadwy**

Fel arfer byddai angen cyfraniad o dai fforddiadwy gyda datblygiad o 43 o unedau. Mae Uned Tai'r Cyngor wedi cadarnhau – o ystyried y lefel isel o ddychweliad a nodir yn y gwerthusiad ariannol, a hefyd risgiau sylweddol i'r prosiect – nad yw'n gofyn am unrhyw gyfraniad o dai fforddiadwy fel rhan o'r datblygiad.

**Cadwraeth Natur**

O safbwynt cadwraeth natur, fe welwyd bod nifer o rywogaethau o ystlumod yn bresennol yn cynnwys heid o Ystlumod Pedol Lleiaf. Y mae yna hefyd "SSSI" - Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i'r dwyrain o safle'r cais; mae hwn wedi'i ddynodi oherwydd arwyddocâd y gwahanol gen sydd i'w gweld ar y coed.

**Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)**

Mae llwybr y ffordd fynedfa breifat i'r datblygiad trwy'r "SSSI" wedi'i gytuno gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

**Heidiau o Ystlumod**

Mae ystlumod yn rhywogaethau a ddiogelir ac mae hyn yn ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar y cais cynllunio. Yn hyn o beth, fe geir arolygon gyda'r cais cynllunio ac mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi ymgynghori gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru wrthwynebiad sy'n parhau ar y cais o safbwynt diogelu a monitro'r heidiau o ystlumod sydd yn bresennol.

Mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi cynnig y dylid cwblhau cytundeb cyfreithiol i ddiogelu'r heidiau ystlumod hyd nes y ceir trwydded ddatblygu o dan Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ystyrir y bydd hyn yn rhoi diogelwch a dull wedi hynny o fonitro'r heidiau ystlumod. Nid oedd y mater hwn wedi'i gytuno ar amser ysgrifennu'r adroddiad.

Yn unol â 'TAN 5' bydd yr awdurdod cynllunio lleol wrth asesu'r cais cynllunio yn rhoi sylw i ddarpariaethau'r Cyfarwyddyd Cynefinoedd. O safbwynt diddordeb cyhoeddus mawr, mae Baron Hill yn adeilad rhestredig graddfa II lle ceir "Adeiladau hynod o bwysig o fwy na diddordeb arbennig". Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd wedi cydnabod y bydd yr adeilad, mae'n debyg, yn disgyn os na wneir rhywbeth a hynny'n golygu colli adeilad graddfa II a rhywogaethau a ddiogelir. Mae yna hefyd diddordeb cyhoeddus mewn adfer a rheoli'r goedlan, yr arboretwm ac ardal yr ardd a chaniatáu i'r cyhoedd gael mynediad iddynt. Ym marn yr awdurdod cynllunio lleol, yr ystyriaethau pwysig hyn sydd o'r diddordeb mwyaf i'r cyngor dan y Cyfarwyddyd Cynefinoedd ac nid oes yna unrhyw ddewis

arall sy'n foddhaol (NSA).
Bydd unrhyw ddiweddariad ar y mater hwn yn cael ei roi yn y Pwyllgor, ond mae eich swyddogion wrth wneud yr argymhelliad yn gofyn am bwerau dirprwyedig i allu cwblhau'r materion hyn.

**Coed a Nodweddion yn y Dirwedd**

Mae yna goedlannau, coed arwyddocaol a choed enghreifftiol ar safle'r cais. Mae'r coed hyn yn cael eu diogelu gan Orchmynion Cadw Coed a hefyd am eu bod mewn ardal gadwraeth. Nid yw'r cynigion tirlunio gyflwynwyd gyda'r cais ond yn rhai dangosol ac fe argymhellwyd gosod dyletswydd o dan adran 106 yn gofyn am gyflwyno, cymeradwyo a gweithredu cynllun 10 mlynedd yng nghyswllt yr Arboretwm a'r Goedlan. Ar sail hyn, gellir rhoi pwysau cadarnhaol i'r cynigion i wella'r goedlan. Bydd y cynllun sydd i'w gyflwyno o dan y ddyletswydd hon hefyd yn cynnwys mesurau i liniaru effeithiau'r datblygiad.

**Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol**

Mae safle'r cais wedi'i leoli o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn. Mae Polisi 30 o Gynllun Lleol Ynys Môn, Polisi D1 o Gynllun Fframwaith Gwynedd, EN1 ac EN2 o Bolisi Cynllunio Cymru (2010) yn darparu polisïau cynllunio ar Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a chymeriad y dirwedd. Fel yr eglurwyd o'r blaen, mae'r adeiladau ar libart mewn cyflwr gwael iawn ac felly hefyd arboretwm yr ardd hanesyddol. Gellir rhoi pwysau cadarnhaol i'r cynigion sy'n destun y cais oherwydd y bydd yn gwella mwynderau'r ardal a'r dirwedd.

**Priffyrdd, Parcio a Throi**

Cafwyd gwrthwynebiadau yn seiliedig ar effaith y datblygiad ar draffig a pharcio fel y manylwyd ar hynny yn y rhan berthnasol o'r adroddiad hwn. Ynghyd â'r cais, fe geir Asesiad Traffig ac mae hwn wedi'i asesu gan Adain Briffyrdd y Cyngor a'i weld yn dderbyniol. Yn amodol ar y gofynion a argymhellir o safbwynt gofyn i draffig adeiladu ddefnyddio'r B5109 o Lansadwrn gyda llwybr troed o'r fynedfa arfaethedig i gysylltu gyda'r llwybr troed presennol ar hyd y briffordd gyhoeddus yn "Henllys Lane".

**Llifogydd a Draenio Dŵr Wyneb**

Bydd dŵr budr o'r datblygiad yn cysylltu i'r garthffosiaeth gyhoeddus. Bydd dŵr wyneb o'r datblygiad yn cael ei arllwys ar raddfa wedi'i hidlio trwy gwlfert presennol i'r môr. Bydd cynigion manwl ynglŷn â dŵr wyneb yn cynnwys angen i drwsio'r cwlfert presennol lle mae wedi'i ddifrodi a hynny trwy osod yr amodau isod.

**7. Casgliad**

I grynhoi, bydd yr aelodau wedi deall o'r adroddiad uchod y bydd y datblygiad yn cael nifer o effeithiau cadarnhaol ac mae eich swyddogion yn ystyried ei fod yn dderbyniol. Mae gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru wrthwynebiad sy'n parhau i'r datblygiad a bydd angen datrys hyn fel sy'n cael ei adlewyrchu yn yr argymhelliad isod.

**8. Argymhelliad**

Rhoi i Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio pwerau dirprwyedig i **ganiatau'r** cais yn amodol ar:

a. Dileu'r gwrthwynebiad sydd yn parhau gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru i'r datblygiad.

b. Cwblhau cytundeb cyfreithiol o dan adran 106 yn cynnwys yr ymrwymiadau canlynol:

1. Diogelu'r heidiau ystlumod hyd nes y ceir trwydded ddatblygu o dan y Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
2. Cyflwyno, cymeradwyo a gweithredu cynllun 10 mlynedd yng nghyswllt yr Arboretwm a'r Goedlan.
3. Darparu mynediad i'r cyhoedd ar hyd llwybr i'w gytuno i'r arboretwm.
4. Llwybr cario i draffig adeiladu i fod ar hyd yr A5025 trwy Bentraeth.
5. Y llwybr o'r fynedfa arfaethedig i gysylltu gyda'r llwybr presennol ar hyd y briffordd gyhoeddus yn "Henllys Lane" cyn bod neb yn byw yn y datblygiad.

c. Ryddhau caniatâd cynllunio gyda'r amodau a ganlyn:

**(01) Rhaid cychwyn y datblygiad y cyfeirir ato yn y caniatâd cynllunio hwn ddim hwyrach na (phum) mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm : I gydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Cwblheir y datblygiad a ganiateir trwy hyn mewn cytundeb llwyr a'r manylion ar gynlluniau wedi dablu o dan ac a gynhwysir yn y ffurflen gais, ac mewn unrhyw ddogfennau eraill gyda'r cyfryw gais.**

| **Dyluniad Rhif** | **Enw'r Dyluniad** |
|---|---|
| WH 1034 EX01 | Cynllun Llawr Presennol i'r Prif Adeilad Rhif 01. |
| WH 1034 EX02 | Cynllun Llawr Presennol i'r Prif Adeilad Rhif 02. |
| WH 1034 EX03 | Cynllun Llawr Presennol i'r Prif Adeilad Rhif 03. |
| WH 1034 EX04 | Cynllun Llawr Presennol i'r Prif Adeilad Rhif 04. |
| WH 1034 EX05 | Dyluniad Cofnodi: Drychiadau Allanol Presennol A, B & C |
| WH 1034 EX06 | Dyluniad Cofnodi: Drychiadau Allanol Presennol D, E & F |
| WH 1034 EX07 | Dyluniad Cofnodi: Drychiadau Allanol Presennol G & H |
| WH 1034 EX08 | Dyluniad Cofnodi: Drychiadau Allanol Presennol J & K |
| WH 1034 EX09 | Dyluniad Cofnodi: Drychiadau Allanol Presennol L & M |
| WH 1034 EX10 | Dyluniad Cofnodi: Drychiadau Mewnol Presennol Ystafelloedd 1-3 |
| WH 1034 EX11 | Drychiadau Mewnol Presennol Ystafelloedd 1-3 |
| WH 1034 EX12 | Drychiadau Mewnol Presennol Ystafelloedd 4-5 |
| WH 1034 EX13 | Drychiadau Mewnol Presennol Ystafelloedd 9-11 |
| WH 1034 EX14 | Drychiadau Mewnol Presennol Ystafelloedd 15 a Drychiadau Seler Fewnol Presennol |
| WH 1034 EX15 | Drychiadau Mewnol Presennol Ystafelloedd 17-18 |
| WH 1034 EX16 | Drychiadau Mewnol Presennol Ystafelloedd 19-20 |
| WH 1034 EX17 | Drychiadau Mewnol Presennol Ystafelloedd 21-22 |
| WH 1034 EX18 | Drychiadau Mewnol Presennol Ystafelloedd 23-24 |

| | |
|---|---|
| WH 1034 EX19 | Drychiadau Mewnol Presennol Ystafelloedd 25-26 |
| WH 1034 EX20 | Drychiadau Mewnol Presennol Ystafelloedd 27-29 |
| WH 1034 EX21 | Drychiadau Mewnol Presennol Ystafelloedd 30 |
| WH 1034 EX22 | Drychiadau Mewnol Presennol Ystafelloedd 31 |
| WH 1034 EX23 | Drychiadau Adeilad Allanol 1, 2, 3, 4 & 5 |
| WH 1034 EX24 | Dyluniad Cofnodi: Drychiadau Adeilad Allanol 6, 8, 9 & 10 |
| WH 1034 EX25 | Dyluniad Cofnodi: Drychiadau Adeilad Allanol 11, 12, 13, 14 |
| WH 1034 EX26 | Drychiadau Mewnol Adeilad Allanol Presennol Ystafelloedd 32, 33 & 38 |
| WH 1034 EX27 | Dyluniad Cofnodi: Drychiadau Mewnol Adeilad Allanol Presennol Ystafelloedd 39, 40, 41 & 44 |
| WH 1034 EX28 | Dyluniad Cofnodi: Drychiadau Mewnol Adeilad Allanol Presennol Ystafelloedd 45, 46 & 47 |
| WH 1034 EX29 | Dyluniad Cofnodi: Drychiadau Mewnol Adeilad Allanol Presennol Ystafelloedd 48, 49 & 50 |
| WH 1034 EX30 | Dyluniad Cofnodi: Drychiadau Mewnol Adeilad Allanol Presennol Ystafelloedd 52, 53, 54 & 55 |
| WH 1034 EX31 | Dyluniad Cofnodi: Drychiadau Mewnol Adeilad Allanol Presennol Ystafelloedd 56, 57 & 58 |
| WH 1034 EX32 | Dyluniad Cofnodi: Drychiadau Mewnol Adeilad Allanol Presennol Ystafelloedd 59, 61, 63 & 64 |
| WH 1034 GF01 REV A | Unedau Cynllun Llawr Isaf Arfaethedig 01-05 |
| WH 1034 GF02 | Unedau Cynllun Llawr Isaf Arfaethedig 06-16 |
| WH 1034 GF03 REV A | Unedau Cynllun Llawr Isaf Arfaethedig 14-18 |
| WH 1034 GF04 REV A | Unedau Cynllun Llawr Isaf Arfaethedig 18-26 |
| WH 1034 FF01 REV A | Unedau Cynllun Llawr Cyntaf Arfaethedig 27-31 |
| WH 1034 FF02 | Unedau Cynllun Llawr Cyntaf Arfaethedig 12-15 & 32-37 |
| WH 1034 FF03 REV A | Unedau Cynllun Llawr Cyntaf Arfaethedig 13-18 |
| WH 1034 FF04 REV A | Unedau Cynllun Llawr Cyntaf Arfaethedig 18-26 |
| WH 1034 SF01 | Unedau Cynllun Llawr Ail Arfaethedig 38-43 |
| WH 1034 MS01 | Toriadau trwy'r Prif Adeilad |
| WH 1034 EL01 REV A | Drychiadau Allanol Arfaethedig A, B & C |
| WH 1034 EL02 REV B | Drychiadau Allanol Arfaethedig D, E & F |
| WH 1034 EL03 REV A | Drychiadau Allanol Arfaethedig G & H |
| WH 1034 EL04 REV A | Drychiadau Allanol Arfaethedig J & K |
| WH 1034 EL05 REV A | Drychiadau Allanol Arfaethedig L & M |
| WH 1034 EL06 REV C | Adeiladau Allanol - Drychiadau Allanol Arfaethedig 1-5 |

| | |
|---|---|
| WH 1034 EL07 REV C | Adeiladau Allanol - Drychiadau Allanol Arfaethedig 6-8 & 10 |
| WH 1034 EL08 REV C | Adeiladau Allanol - Drychiadau Allanol Arfaethedig 11-14, 18 & 19 |
| WH 1034 EL09 REV A | Adeiladau Allanol - Drychiadau Allanol Arfaethedig 20-23 |
| WH 1034 SC01 | Drychiadau Drws a Ffenestr |
| WH 1034 SC02 | Manylion Drws a Ffenestr |
| WH 1034 LP01 Rev A | Cynllun Lleoliad |
| Axis MH -SK03 | Llwybr mewnol arfaethedig a llefydd pasio |
| Ffigwr Axis 9 REV B | Trefniadau Mynedfa Arfaethedig y Safle a Parcio Ceir yn Cynnwys Llwybr Ysgubol |
| Ffigwr Axis 10 REV A | Lleoliad mynediad safle arfaethedig i Henllys Lane |
| Ark 09/104/01 | Cysyniad tirlun a gwaith coed |
| WH 1034 MS01 | Toriadau arfaethedig trwy'r Prif Adeilad |
| WH 1034 SC03 | Sgertins / Architrafau a Manylion Drws |
| WH 1034 SC04 | Prif Adeilad Manylion Grisiau |
| WH 1034 SC05 | Prif Adeilad - Manylion Panelu Neuadd Fynedfa |
| WH 1034 SS01 REV A | Llwybrau Arfaethedig - Mynediad trwy SSS1 |
| BP/BH/01REV B | Cynllun Draenio |
| BP/BH/02 | Gosodiad Draeniant |

Oni bai cymeradwywyd yn ysgrifenedig fel arall gan yr awdurdod cynllunio lleol neu wedi cynnwys o dan ddarpariaeth unrhyw amodo’r caniatâd cynllunio.

Rheswm i sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gyflawni yn unol â’r manylion a gymeradwywyd.

**(03) Rhaid toi'r datblygiad a ganiateir yma gyda llechi naturiol grug las Cymreig, neu gyda llechi o'r un lliw, gwead a nodweddion hindreulio. Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad hyd nes bydd samplau neu ddisgrifiadau masnachol o'r llechi a fwriedir eu defnyddio ar do'r datblygiad wedi eu cyflwyno a'u cymeradwyo mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid defnyddio'r llechi cymeradwyedig i gario allan y datblygiad.**

Rheswm: I warchod cymeriad ac edrychiad yr adeilad rhestredig.

**(04) Yn ystod y gwaith o glirio tu mewn i’r adeilad gan berson cymwys a phroffesiynol archeolegol rhaid gwneud cofnod mesuredig a ffotograffig manwl - “Canlyniadau’r arolwg”. Rhaid i “ganlyniadau’r arolwg” nodi’r eitemau sydd i’w storio mewn dull diogel a phriodol a rhai sydd i’w gwaredu a rhaid i hynny gael ei ganiatáu’n ysgrifenedig gyda’r awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau’r gwaith datblygu ganiateir yma.**

Rheswm: I sicrhau bod cymeriad a gwedd yr adeilad rhestredig yn cael eu diogelu gan ddatblygiad

priodol.

**(05)  Cyn gwneud gwaith cynhyrchu a gosod bydd raid i'r ymgeiswyr neu eu dibynyddion ddarparu ar y safle y samplau isod i'w harchwilio ac wedyn i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (a) Fel sampl un ffenestr sash teip bocs sy'n llithrio ac o goed ac wedi ei pheintio (b) Drws allanol o goed wedi ei beintio (c) 1 metr sgwâr o rendr fel sampl.**

Rheswm:  I sicrhau bod cymeriad a gwedd yr adeilad rhestredig yn cael eu diogelu gan ddatblygiad priodol.

**(06) Ni chyflawnir unrhyw ddatblygiad ar y safle hyd nes fo gweithrediad rhaglen o waith archeolegol wedi ei sicrhau yn unol â chynllun ymchwiliad ysgrifenedig a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd mewn ysgrifen gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.**

Rheswm : I gofnodi a gwarchod unrhyw dystiolaeth archeolegol a all fod yn bresennol ar y safle.

**(07) Ni chaniateir cychwyn gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma hyd nes y bydd y manylion draenio canlynol wedi'u cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol:**

1. **Arolwg(ion) CCTV o gyflwr y cwlfert(iau) presennol i'w defnyddio i arllwys llif dŵr wyneb o'r datblygiad.**
2. **Rhestr o'r gwaith trwsio a'r gwelliannau i'r cwlfert(iau) presennol yn 1.**
3. **Manylion llawn a manylebau ar gyfer yr holl ddraeniau dŵr budr, dŵr wyneb a traeniau tir fydd yn gwasanaethu'r datblygiad (yn cynnwys yr holl fannau parcio a'r ffordd sy'n rhoi mynediad).**
4. **System reoleiddio dŵr wyneb.**

**Rhaid i'r manylion a gymeradwyir dan ddarpariaethau'r amod hon fod wedi'u gweithredu a'u cwblhau cyn bod neb yn byw yn y datblygiad.**

Rheswm:  Er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn cael ei ddraenio'n iawn ac i rwystro'r risg gynyddol o lifogydd ar y safle ac oddi ar y safle.

**(08)  Ni cheir dechrau unrhyw ran arall o'r datblygiad hyd nes y bo'r fynedfa i gerbydau a'r lleiniau gwelededd ddangosir ar y cynlluniau gymeradwyir yma, wedi eu cwblhau.**

Rheswm: Er mwyn lleihau peryglon, rhwystr ac anhwylustod i ddefnyddwyr y briffordd a'r fynedfa.

**(09) Ni fydd y datblygiad yn cychwyn hyd nes fo manylion ynglŷn â'r dull o wared dŵr wyneb o'r briffordd wedi eu cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac ni fydd unrhyw annedd yn cael ei feddiannu hyd nes fo'r gweithfeydd ar gyfer gwared dŵr wyneb wedi eu hadeiladu yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.**

Rheswm: I leihau y perygl a'r anghyfleustra i ddefnyddwyr y briffordd.

**(10) Bydd y cynllun ar gyfer parcio, cadw mewn modurdy a symud a dangosir ar y cynlluniau a gyflwynwyd yn cael eu gosod allan cyn meddiannu'r datblygiad a ganiateir drwy hyn ac ni fydd yr ardal yma wedyn yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas arall.**

Rheswm: I alluogi cerbydau i dynnu oddi ar y ffordd, parcio a throi o'r briffordd i leihau peryglon, rhwystr ac anhwylustod i ddefnyddwyr y briffordd gyfagos.

**(11) Rhaid gosod hydrantau dŵr lle dangosir hynny ar y cynllun sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i gydymffurfio i BSI BS750.**

Rheswm: Er lles diogelwch rhag tân.

**(12) Ni chaniateir cyflawni unrhyw ddatblygiad cyn cyflwyno manylion o'r deunyddiau y bwriedir eu defnyddio ar wynebau allanol y datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a'u cymeradwyo ganddo mewn ysgrifen. Rhaid defnyddio'r deunyddiau a gymeradwywyd wrth weithredu'r datblygiad.**

Rheswm: I sicrhau golwg foddhaol i'r datblygiad.

**(13) Ni ddymchwelir na newidir unrhyw adeilad presennol nag unrhyw ran o unrhyw adeilad presennol, ac eithrio y rhai a ddangosir ar y darluniau a gymeradwywyd, heb dderbyn caniatad ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.**

Rheswm: I sicrhau golwg foddhaol i'r datblygiad ac i warchod cymeriad gweledol yr ardal gyfagos.

**(14) Ni chyflawnir unrhyw ddatblygiad hyd nes fo manylion lefelau slabiau arfaethedig yr adeilad(au) mewn perthynas â lefelau presennol ac arfaethedig yr adeilad wedi eu cyflwyno ac wedi eu cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Fe fydd yr adeilad(au) yn cael ei/eu adeiladu/hadeiladu gyda'r lefelau slabiau arfaethedig.**

Rheswm: I osgoi unrhyw amheuaeth ac i sicrhau ffurf foddhaol o ddatblygiad.

**(15) Rhaid i'r holl derfynau a altrwyd neu rai newydd a waliau cadw ar hyd y brifffordd gyhoeddus yn "Henllys Lane" fod wedi'u hwynebu gyda charreg naturiol leol neu garreg o liw, ansawdd a nodweddion hindreulio tebyg. Rhaid i'r gwaith cerrig arfaethedig gael ei osod, ei gyrsio a'i bwyntio i fatsio'r waliau cerrig presennol ar hyd "Henllys Lane".**

Rheswm : Er budd mwynderau gweledol yr ardal.

**(16) Mae caniatâd cynllunio wedi cael ei gymeradwyo ar sail bod yr adeilad yn cael ei drosi yn unol â'r gwaith rhestrir yn yr arolwg strwythurol a chynlluniau gyflwynwyd. Os oes wal allanol neu mewnol yn cael ei chwalu, a doedd hyn ddim wedi cael ei gymeradwyo yn y manylion gymeradwywyd yr ydych yn cael eich cynghori i gysylltu â'r Adain Rheoli Datblygu yn syth oherwydd y gallai dirymu y caniatâd cynllunio.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod manylion ac edrychiad y datblygiad yn dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol

**(17) Ni chaniateir dechrau unrhyw waith datblygu hyd nes y bydd trwydded datblygu wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a bod manylion llawn am unrhyw ddiwygiadau i ddyluniad y datblygiad ac unrhyw waith lliniaru arall sydd ei angen o dan y drwydded ddatblygu wedi'u cyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cwblhau'r datblygiad wedi hynny yn hollol unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan yr amod hon.**

Rheswm: I ddiogelu'r rhywogaethau a ddiogelir a sicrhau bod y manylion yn dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar adeilad rhestredig graddfa II.

**(18) Rhaid i'r holl offer dwr glaw ar yr adeilad fod yn rhai metal, onnibai ei fod yn cael ei gytuno**

**fel arall mewn sgwennu gan yr awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Er mwyn cadw cymeriad yr adeilad.

**(19) Ni chaniateir gwneud unrhyw waith datblygu hyd nes y bydd manylion llawn a manylebau am yr holl lefydd aros caled, ffyrdd a llwybrau (yn cynnwys y mannau lle y bwriedir gosod deunyddiau sy'n hydreiddio) wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig. Rhaid i'r manylion a gymeradwywyd o dan yr amod hon gael eu gweithredu cyn bod neb yn byw yn yr adeilad neu ei ddefnyddio'r adeilad.**

Rheswm: I ddiogelu cymeriad ac edrychiad y pethau o amgylch yr adeilad rhestredig graddfa II.

**(20) Rhaid i'r holl oleuadau sydd i'w gosod yn y datblygiad fod yn destun cynllun goleuo ("y cynllun") fydd yn cydymffurfio gyda Chyfarwyddyd Sefydliad y Peirianwyr Goleuo "Gostwng Llygredd Goleuni (2ail Ddiwygiad) (neu unrhyw fersiynau dilynol neu ddiwygiadau), ac a fydd yn cynnwys:**

**(1) Manylion llawn (gyda dyluniadau) yn cynnwys uchderau, safle, math o lamp/ luminaire, rheoli pelydr, watedd, adlewyrchyddion, bafflau, lwfrau, cowlin a chyfuchliniau/dosbarthiad lux a ragwelir a diagramau o'r gosodiad ("y gosodiad").**
**(2) Oriau ac/neu amlder y defnydd (yn cynnwys unrhyw gyfnodau lle defnyddir llai o ynni).**
**(3) Datganiad goleuo gan beiriannydd/ ymgynghorydd cymwys yn nodi effeithiau golau o dderbynwyr sensitif ar briffordd, cyfiawnhad am y gosodiad ac unrhyw fesurau lliniaru.**
**(4) Ni chaniateir dechrau defnyddio'r goleuadau hyd nes caiff yr ymgeisydd a'r awdurdodau cynllunio gadarnhad fod y gosodiad yn unol â'r cynllun (ar gost yr ymgeisydd, gan beiriannydd/ymgynghorydd trydydd parti annibynnol.**
**(5) Rhestr gynnal a chadw.**
**(6) Hawl yr awdurdod cynllunio lleol i ofyn am wybodaeth gan yr ymgeisydd neu beiriannydd/ymgynghorydd trydydd parti annibynnol (y cyfan ar gost yr ymgeisydd) yng nghyswllt unrhyw un o'r materion sy'n disgyn o fewn cylch amodau 1 i 5 uchod.**

**(21) Rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol, cyn dechrau'r datblygiad ganiateir yma neu unrhyw ddyddiad arall all gael ei gytuno'n ysgrifenedig gyda'r awdurdod cynllunio lleol. Ni chaniateir unrhyw newidiadau o gwbl i'r manylion fydd wedi'u cymeradwyo ar y gosodiad oni bai i hynny gael ei gytuno'n ysgrifenedig gyda'r awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: I ddiogelu mwynderau preswyl a gweledol yr ardal a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

**(22) Nid yw'r cynigion tirlunio ddangosir ar y cynlluniau ganiateir yma ond yn rhai dangosol yn unig.**

Rheswm: I ddiffinio y sgôp y caniatad yma.

**(23) Ni chaniateir gwneud unrhyw waith datblygu hyd nes y bo'r cynllun Arboretwm a Choedlan 10 mlynedd sydd ei angen o dan y cytundeb cyfreithiol gwblhawyd ar (**/**/**) ac unrhyw newidiadau dilynol i ddyluniad y datblygiad wedi'u cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig. Rhaid cwblhau'r datblygiad wedi hynny yn hollol unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan yr amod hon.**

Rheswm : Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw niwed yn digwydd i'r coed yn ystod y gwaith adeiladu.

**Er Gwybodaeth**

Mae'r rhybudd penderfyniad hwn yn ymwneud yn unig â Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) ac nid yw'n honni ei fod yn rhoi unrhyw ganiatâd all fod ei angen o dan ddarpariaethau cyfreithiol ar wahân gan Ewrop a'r Deyrnas Unedig yng nghyswllt rhywogaethau a ddiogelir. Dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y cafodd ei ddiwygio) a than Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc) 1994, mae'n drosedd amharu ar ystlumod yn eu cuddfan, neu ladd neu anafu ystlumod neu beri difrod neu rwystro agoriad i'r man cludo pa un a ydyw'r man cludo yn cael i ddefnyddio ar y pryd ai peidio. Os ceid tystiolaeth bod y lle yn cael ei ddefnyddio gan ystlumod, efallai wedyn y bydd rhaid sicrhau trwydded gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (Rhanbarth Cefn Gwlad) cyn gwneud unrhyw waith datblygu. Cynghorir yr ymgeisydd i gysylltu gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 2NQ, ffôn 02920 823363.

Mae angen cymeradwyaeth ar wahân am Caniatâd Adeilad Rhestredig. Does dim gwaith i ddechrau hyd nes mae Caniatâd Adeilad Rhestredig wedi'i dderbyn.

Rhaid yr hysbyseb penderfyniad gael ei ddarllen gyda thelerau’r cytundeb cyfreithiol o’r (**/**/**) Yr ydych yn cael eich cynghori i fodloni eich hun bod ganddo’ch yr holl ddogfennau.

Bydd angen caniatâd ar wahân gan yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer cymeradwyaeth o fanylion adeiladu o’r fynedfa, yn cynnwys draeniant dwr wyneb cyn dechrau unrhyw waith ar y gyffordd gyhoeddus. A fuasech mor garedig a chael y ffurflenni angenrheidiol o’r Adran Priffyrdd.

Mae caniatâd cynllunio wedi cael ei gymeradwyo ar sail bod yr adeilad yn cael ei drosi yn unol â’r gwaith rhestrir yn yr arolwg strwythurol a chynlluniau gyflwynwyd. Os oes wal allanol neu mewnol yn cael ei chwalu, a doedd hyn ddim wedi cael ei gymeradwyo yn y manylion gymeradwywyd yr ydych yn cael eich cynghori i gysylltu a’r Adain Rheoli Datblygu yn syth oherwydd y gallai dirymu y caniatâd cynllunio.

## 9. Polisïau Perthnasol Eraill

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D29 (Dyluniad) FF15 (Gofynion Cerddwyr)

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

42 (Dyluniad) 48 Meini Prawf Datblygu Tai

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**

GP2 (Dyluniad)

## 10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd

Derbyniwyd 5 o lythyrau yn gwrthwynebu’r cais am y rhesymau a ganlyn:

- Traffig a’r Allanfa a thagfeydd yn dilyn hynny.
- Bydd ymwelwyr i’r arboretwm yn teithio gyda char a byddant eisiau parcio yn ardal y fynedfa i’r llwybr troed a bydd hynny’n creu problemau.
- Hefyd yn awgrymu bod maes parcio’n cael ei ddarparu i drigolion lleol yn y fynedfa i gerbydau i’r datblygiad.
- Cynigir cynnig arall am ddatblygiad yn ymwneud â thwristiaeth.
- Y datblygiad o fantais i’r lleiafrif ac nid y mwyafrif llawer.

- Dim angen am fwy o dai ym Miwmares.

**Polisi Cynllunio Mwynau Cymru** (Rhagfyr 2000)

**Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1** (Mawrth 2004)

**Nodyn Cyngor Technegol 8 – Ynni Adnewyddadwy** (2005)

**Nodyn Cyngor Technegol 21 – Gwastraff** (Tachwedd 2001).

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol – Yn gwrthwynebu ac yn gofyn am i'r cais gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio oherwydd gwrthwynebiad gan breswyliwr lleol.

Cyngor Cymuned – yn gwrthwynebu.

Asiantaeth yr Amgylchedd – Dim gwrthwynebiad. Fodd bynnag, fe ddylid cymryd mesurau priodol i gael gwared o wastraff portalw.

Priffyrdd – Dim gwrthwynebiad, ond yn cynghori na ddylid tarfu gyda llwybr cyhoeddus sy'n pasio gerllaw.

Iechyd yr Amgylchedd – dim sylwadau

Dŵr Cymru – dim gwrthwynebiad.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais trwy arddangos rhybudd safle a dosbarthu llythyrau rhybuddio cymdogion. Cafodd y cais ei ail-hysbysebu yn yr un ffordd yn dilyn dryswch ynglŷn â'r disgrifiad o'r cais.

Cafwyd 7 llythyr yn gwrthwynebu o ganlyniad i'r cyhoeddusrwydd gyda'r prif bwyntiau a wneir fel a ganlyn:

a) Diogelwch y briffordd a chapasiti'r ffordd i ddelio gyda lorïau trwm ar lôn dosbarth 2.

b) Dim drychiadau wedi'u cyflwyno ar gyfer y portacabins arfaethedig.

c) Mae rhan o'r datblygiad wedi'i leoli y tu allan i bowlen y chwarel.

d) Bydd y gweithgaredd arfaethedig yn digwydd y tu allan i oriau gwaith a gymeradwywyd.

e) Bydd y cyfleuster storio cerrig sy'n gysylltiedig â'r cais hwn yn golygu mwy o dunelli na'r 30,000 tunnell gymeradwywyd fel rhan o'r lle ailgylchu.

f) Does yna ddim darpariaethau yn eu lle i ddiogelu trigolion lleol oddi wrth y gweithgaredd arfaethedig.

## 5. Hanes Cynllunio Perthnasol

33C190:  Cais i adolygu amodau o dan Ddeddf Amgylchedd 1995 yn Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen. Caniatau– 20/07.1999.

33C190A:  Codi gwaith asffalt rhannol symudol a chyfleuster ailprosesu yng nghyswllt adeiladu'r A55 yn Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen.  Caniatau- 15/09/1999.

33C190B:  Adeiladu ffordd fynedfa dros dro oddi ar y briffordd mewn cyswllt a gwaith adeiladu'r A55 yn Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen.  Caniatau– 15/09/1999.

33C190C:  Adeiladu mynedfa newydd i'r chwarel yn Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen.  Caniatau– 07/05/1999.

33C190D:  Codi a defnyddio gwaith matsio a chludo i mewn deunyddiau i gynhyrchu concrid a sgrid yn Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen.  Dynnwyd yn ôl - 09/08/2000.

33C190E:  Codi swyddfa a lle parcio ceir yn gysylltidig ag adeiladu'r A55 yn Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen.  Caniatau– 15/09/1999.

33C190F:  Codi lle storio a labordy ac iard storio a maes parcio yn Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen. Caniatau- 15/09/1999.

33C190G:  Llunio priffordd gyhoeddus newydd rhwng Lon Ceint a Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen. Caniatau- 13/07/1999.

33C190H:  Cynlluniau llawn i ailgylchu deunydd cynnal a chadw priffyrdd ar dir yn Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen.  Caniatau– 10/11/2003

33C190H/SCR:  Barn sgrinio am waith ailgylchu cerrig yn Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen.  Dim Angen EIA – 15/07/2003.

33C190J:  Defnyddio tir fel rhedwyr safle sgip a lleoli portacabin, toiled a chantin ar dir yn Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen.  Gwrthodwyd – 02/01/2004.

33C190J/SCR:  Barn sgrinio i ddatblygu gorsaf trosglwyddo gwastraff yn Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen.  Dim Angen EIA – 11/08/2003.

33C190K:  Amrywio amod (04) ar gais cynllunio rhif 33C190H i ganiatau cludo i mewn 30,000 tunnell o ddeunyddiau'n codi o waith cynnal a chadw mewn unrhyw un flwyddyn yn Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen.  Dynnwyd yn ôl – 25/03/2009.

33C190M:  Cais llawn i gludo ac ailddefnyddio a phrosesu gwastraff dymchwel ac adeiladu yn codi o waith gwella priffyrdd yn Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen.  Caniatau – 10/08/09.

33C190N: Diwygio amod (03) ar ganiatâd cynllunio 33C190M yn Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen. Caniatau 07/10/10

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

Rhoddwyd caniatâd cynllunio o dan gyfeirnod 33C190M a 33C190N ar gyfer cario i mewn, prosesu ac ailddefnyddio hyd at 30,000 tunnell o wastraff priffyrdd a gwastraff adeiladwyr ar y safle.

Mae’r cais hwn yn un i godi pont bwyso newydd a swyddfa ar y safle i’w defnyddio yn gysylltiedig â’r gweithgaredd hwn. Mae’r cais hefyd yn un i storio deunyddiau priffordd sy’n gysylltiedig â gwaith blynyddol o wella a chynnal a chadw’r lonydd. Ni fydd swm y deunyddiau fydd yn cael ei storio fel rhan o’r cais yn fwy na’r uchafswm o 30,000 tunnell a nodir yn amod 4 o gais cynllunio 33C190M.

Felly, ni ddylai’r cais hwn ond ystyried y prif faterion cynllunio o ganiatáu dwy swyddfa portacabin ar y safle, pont bwyso i’w lleoli o fewn powlen y chwarel a storio’r cerrig yn hen faes parcio’r chwarel. Unwaith yn rhagor rwyf am ddweud - Nid yw hwn yn gyfle i gwestiynu dilysrwydd y penderfyniadau blaenorol sydd yn gysylltiedig â gwaith ailgylchu yn y lleoliad hwn.

Rwyf yn ystyried bod y mwyafrif o’r gwrthwynebiadau a nodir yn y 7 llythyr a dderbyniwyd gan yr awdurdod wedi cael eu trafod yn llawn o fewn cais cynllunio 33C190M a 33C190N.

Fodd bynnag, nodir o fewn y llythyrau nad oedd unrhyw ddrychiadau wedi’u cyflwyno yn adlewyrchu maint y swyddfeydd portacabin arfaethedig ar y safle. Yn hytrach, mae’r cynllun a gyflwynwyd yn dangos yn glir beth yw troedbrint y ddau portacabin ar y safle, pob un yn mesur 12 metr o hyd wrth 4 metr o led. Er na roddwyd mesuriadau ynglŷn â’u huchder allanol, fe gadarnhawyd na fyddent yn uwch na 3metr. O ystyried eu lleoliad arfaethedig o fewn y chwarel, ni fydd y cabanau i’w gweld ac ni fyddant yn nodwedd amlwg yn y tirlun. Fodd bynnag, i osgoi amheuaeth, fe all mesuriadau a lliw’r cabanau arfaethedig a natur dros dro y strwythurau gael eu rheoli trwy amodau cynllunio.

Roedd y sylwadau cyffredinol yn y llythyrau yn dweud y byddai’r cerrig yn cael eu storio y tu allan i bowlen y chwarel ac o fewn rhyw ganllath i eiddo cymdogion. Awgrymwyd ymhellach y byddai tarmac yn cael ei wneud ar y safle. Mae’n cael ei gydnabod y bydd gweithgareddau yn digwydd o fewn maes parcio’r chwarel, ond mae’r ardal hon wedi’i sgrinio’n dda gan hen wrychoedd a choed ac ni fydd i’w weld o’r briffordd, ac ni roddwyd unrhyw awgrym gan yr ymgeisydd y bydd tarmac yn cael ei brosesu ar y safle. Ymhellach i hyn, ni fydd y gweithgaredd sy’n gysylltiedig â storio cerrig ar y safle ond yn digwydd unwaith y flwyddyn am gyfnod o tua 4 wythnos tra bo cynlluniau gwella’r lonydd yn y Sir ar waith. Ystyrir felly y bydd y cais hwn yn ffurfioli ac yn rheoli’r gweithgaredd hwn ar y safle ac y bydd felly yn fwy manteisiol i drigolion lleol yn yr ardal.

Mae yna amheuaeth hefyd am y cyfyngiad o 30,000 tunnell sydd yn gysylltiedig â’r gweithgaredd ailgylchu ganiatawyd yn flaenorol ac mae nifer o’r llythyrau sy’n gwrthwynebu’r cais yn gwneud pwynt hwnnw. Felly, rhaid dweud mai’r unig ffordd bosibl o fonitro’r tunelli fydd yn cael eu cludo i mewn i’r safle yw trwy ganiatáu pont bwyso a wedyn fe ellir monitro cofnodiadau’r bont bwyso. Felly, rydym yn ystyried bod y bont bwyso yn rhan hanfodol yng nghyswllt y gweithgaredd presennol ar y safle. Mae’r ymgeisydd wedi dweud yn blaen na fydd y cerrig a’r deunyddiau gwastraff fydd yn cael eu cludo i’r safle yn fwy na’r cyfyngiad o 30,000 tunnell y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddo o dan gyfeirnod 33C190M. Unwaith yn rhagor, er mwyn osgoi amheuaeth, fe ellir sicrhau hyn trwy osod amod cynllunio arall.

Cafwyd nifer o wrthwynebiadau hefyd i’r cais ar sail priffyrdd. Yr unig effaith o ganlyniad i’r cais hwn yw dod â dau portacabin a phont bwyso ar y safle. Ni chafwyd unrhyw sylwadau croes gan yr Awdurdod Priffyrdd yn ystod y broses ymgynghori. Mae hawl i’r safle ar hyn o bryd fel safle cloddio mwynau a safle datblygu cymydog drwg yn y cynllun datblygu lleol. Mae’r gwaith o ailgylchu cerrig sy’n dod o wastraff adeiladwyr a phriffyrdd eisoes wedi’i ganiatau ar y safle; mae gosod swyddfeydd portacabin a phont bwyso yn hanfodol fel y gall y gwaith hwn fynd yn ei flaen. Mae’r cais hefyd yn gofyn am gael storio cerrig dros dro fydd yn codi o gynlluniau gwella ffyrdd ac ni fydd yn golygu mwy o symudiadau ar y ffordd i mewn ac allan o’r chwarel gan loriau trwm oherwydd bydd y cwota tunelli yn parhau ar 30,000 tunnell y flwyddyn. Ystyrir felly bod y defnydd arfaethedig yn cyd-fynd gyda’r defnydd presennol a ganiateir i’r safle a’i fod yn cytuno gyda’r dyraniadau i’r safle yn y cynllun datblygu.

**7. Casgliad**

Er y gwrthwynebiad cryf a dderbyniwyd gan y gymuned leol, ni chafwyd unrhyw sylwadau croes gan yr ymgynghorwyr statudol. Ystyrir bod y cynnig yn unol â pholisïau cenedlaethol a lleol. Ystyrir felly nad yw'r gwrthwynebiadau leisiwyd i'r cynnig yn cario digon o bwysau i gyfiawnhau gwrthod y cais cynllunio hwn.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Oni bai iddo gael ei gytuno'n ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol, rhaid gwneud y datblygiad ganiateir yma yn hollol unol â'r cynlluniau a'r Datganiad Dyluniad a Mynediad ddilyswyd ar 15/09/10.**

Rheswm: I sicrhau fod manylion a golwg y datblygiad yn dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

**(03) Ni cheir cludo i mewn i'r safle fwy na 30,000 tunnell o ddeunyddiau ar gyfer/yn codi o waith cynnal a chadw priffyrdd a gwastraff adeiladu.**

Rheswm: Er lles mwynderau.

**(04) Ni chaniateir i'r swyddfeydd portacabin ganiateir yma fod a mesuriadau allanol fydd yn fwy na 12 metr (hyd) x 4 metr (led) x 3 metr (uchder) a rhaid eu peintio'n lliw llwyd (BS18B25) o fewn 3 mis i'w lleoli ar y safle a hynny er boddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol.**

Rheswm: Sicrhau y bydd y datblygiad yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(05) Rhaid i'r swyddfeydd portacabin ganiateir yma gael eu symud oddi ar y tir erbyn 20 Rhagfyr 2015.**

Rheswm: Am gyfnod dros dro'n unig y rhoes yr awdurdod cynllunio lleol ganiatâd gan eu bod yn dymuno ailystyried y sefyllfa yn wyneb yr amgylchiadau fydd yn bod yr adeg honno.

**(06) Rhaid i'r gwaith sy'n gysylltiedig ar datblygiad ganiateir yma gael ei wneud yn ystod yr oriau canlynol: Llun i Gwener 0800 i 1800 awr, dydd Sadwrn 0800 i 1400 awr; a dim o gwbl ar ddydd Sul a Gwyliau'r Banc.**

Rheswm: I amddiffyn mwynderau preswylwyr tai cyfagos.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim

## 10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd

Dim

**12.13** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **38LPA935/AD/CC** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Head of Service (Economic Development)**
**c/o Mr Matthew Jones**
**Imagemakers**
**The Old School**
**Sticklepath**
**Okehampton**
**Devon**
**EX20 2NJ**

Codi panel gwybodaeth ar dir ger | Erection of an information panel on land adj

The Bus Stop, Tregele



**Pwyllgor Cynllunio: 01/12/2010**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (JBR)**

**Argymhelliad:**

Caniatau.

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cais gan yr Awdurdod Lleol.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais yw hwn i godi panel gwybodaeth ar dir ger yr arosfan bws yn Tregele.

**2. Mater(ion) Allweddol**

A yw lleoli'r panel gwybodaeth yn y lleoliad hwn yn dderbyniol o safbwynt mwynderau a diogelwch y brifffordd.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

1 – Polisi Cyffredinol
22 – Hysbysebion

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D4 – Lleoliad, Gosodiad a Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

SG10 – Hysbysebion.

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad.
Cyngor Cymuned – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad.
Priffyrdd – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Ymateb i Gyhoeddusrwydd

Dim wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Dyluniad**

Mae'r panel gwybodaeth o ddyluniad lectern wedi'i wneud o ddur gloyw fydd wedi'i orchuddio gyda chot o bowdr lliw brown.

Nid ydym o'r farn y bydd y panel gwybodaeth arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau'r ardal.

**Priffyrdd**

Nid ydym yn ystyried y bydd y panel gwybodaeth arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch y briffordd.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Mae caniatâd yn cael ei rhoi am gyfnod o 5 mlynedd yn cychwyn ar ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: I gydymffurfio gyda Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 2007.

**(02) Rhaid cadw unrhyw hysbysebion a arddangosir, ac unrhyw safle a ddefnyddir i arddangos hysbysebion, yn lan a thaclus ac wrth fodd yr awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(03) Rhaid cadw unrhyw strwythur neu hordin a godir neu a ddefnyddir er mwyn arddangos hysbysebion mewn cyflwr diogel.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(04) Lle bo angen tynnu hysbyseb i lawr dan y Rheoliadau hyn, rhaid eu tynnu i lawr mewn ffordd a fydd wrth fodd yr awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(05) Ni chaniateir arddangos hysbyseb heb ganiatâd perchennog y safle neu unrhyw berson arall a budd yn y safle sydd a hawl i roi caniatâd.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(06) Ni chaniateir gosod nac arddangos yr hysbyseb mewn modd a fydd yn cuddio, neu'n amharu ar ddehongliad unrhyw arwydd traffig ffordd.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder ac hefyd

yn cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd er lles diogelwch cerbydau a cherddwyr.

**(07) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 29.10.10 o dan cais cynllunio rhif. 38LPA935/AD/CC.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim

**12.14** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **38LPA940/AD/CC** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Head of Service (Economic Development)**
**c/o Mr Matthew Jones**
**Imagemakers**
**The Old School**
**Sticklepath**
**Okehampton**
**Devon**
**EX20 2NJ**

Codi panel gwybodaeth ar dir ger | Erection of an information panel on land adj

Playground, Llanfechell



**Pwyllgor Cynllunio: 01/12/2010**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (JBR)**

**Argymhelliad:**

Caniatau.

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cais gan yr Awdurdod Lleol.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais yw hwn i dynnu'r arwyddion presennol a chodi panel gwybodaeth ar dir yng nghefn y maes parcio cyhoeddus yn Llanfechell.

**2. Mater(ion) Allweddol**

A fydd lleolir panel gwybodaeth yn y lleoliad hwn yn dderbyniol o safbwynt mwynderau a diogelwch y brifford.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

1 – Polisi Cyffredinol
22 – Hysbysebion

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D4 – Lleoliad, Gosodiad a Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

SG10 – Hysbysebion.

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad.
Cyngor Cymuned – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad.
Priffyrdd – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Ymateb i Gyhoeddusrwydd

Dim wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim.

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

**Dyluniad**

Mae'r panel gwybodaeth o ddyluniad lectern wedi'i wneud o ddur gloyw fydd wedi'i orchuddio gyda chot o bowdr lliw brown.

Nid ydym yn ystyried y bydd y panel gwybodaeth arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau'r ardal.

**Priffyrdd**

Nid ydym yn ystyried y bydd y panel gwybodaeth arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch y briffordd.

## 7. Casgliad

Ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol.

## 8. Argymhelliad

**Caniatau**

**(01) Mae caniatâd yn cael ei rhoi am gyfnod o 5 mlynedd yn cychwyn ar ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: I gydymffurfio gyda Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 2007.

**(02) Rhaid cadw unrhyw hysbysebion a arddangosir, ac unrhyw safle a ddefnyddir i arddangos hysbysebion, yn lan a thaclus ac wrth fodd yr awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(03) Rhaid cadw unrhyw strwythur neu hordin a godir neu a ddefnyddir er mwyn arddangos hysbysebion mewn cyflwr diogel.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(04) Lle bo angen tynnu hysbyseb i lawr dan y Rheoliadau hyn, rhaid eu tynnu i lawr mewn ffordd a fydd wrth fodd yr awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(05) Ni chaniateir arddangos hysbyseb heb ganiatâd perchennog y safle neu unrhyw berson arall a budd yn y safle sydd a hawl i roi caniatâd.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(06) Ni chaniateir gosod nac arddangos yr hysbyseb mewn modd a fydd yn cuddio, neu'n amharu ar ddehongliad unrhyw arwydd traffig ffordd.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder ac hefyd yn cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd er lles diogelwch cerbydau a cherddwyr.

**(07) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 29.10.10 o dan cais cynllunio rhif 44LPA937/AD/CC.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim.

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim.

**12.15** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **39LPA799A/CC** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Head of Service (Education)**
**Anglesey County Council**
**Council Offices**
**Llangefni**
**Ynys Môn**
**LL77 7TW**

Ailwampio ac estyniad i Refurbishemnts and extensions to

Llyfrgell Porthaethwy Menai Bridge Library, Wood Street, Menai Bridge



**Pwyllgor Cynllunio: 01/12/2010**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(DO)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais wedi ei gyflwyno gan yr Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r safle ar Ffordd y Ffair, Porthaethwy.

Yr adeilad sydd yno ar hyn o bryd yw Llyfrgell Gyhoeddus fodern wedi'i lleoli o fewn Ardal Gadwraeth ddynodedig Porthaethwy. Cynnig yw hwn i godi lle i gyfrifiaduron yng nghefn yr adeilad presennol.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif fater sydd angen ei ystyried yw dyluniad y datblygiad o fewn yr Ardal Cadwraeth.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 40 – Cadwraeth Adeiladau
Polisi 42 – Dyluniad

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D3 – Ardal Gadwraeth
Polisi D4 – Lleoliad
Polisi D29 – Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Cyffredinol
Polisi GP2 – Dyluniad
Polisi EN13 - Cadwraeth Adeiladau

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cynnig mewn tair ffordd: rhoi rhybudd safle ger y safle a dosbarthu llythyrau personol a rhoi rhybudd i berchnogion / deiliaid eiddo cyfagos. Rhoddwyd hysbyseb hefyd yn y wasg yn lleol. Oherwydd bod newid i'r cais hwn y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddusrwydd yw 25/11/10 ac 01/12/10 ar gyfer yr hysbyseb yn y wasg leol.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw lythyrau yn rhoi sylwadau wedi'u derbyn.

**Yr Aelod Lleol**

Mae'r Aelod Lleol yn argymell Caniatáu.

**Cyngor Tref**

Mae'r Cyngor Tref yn argymell Caniatáu.

**Priffyrdd**

Dim argymhelliad

**Draenio**

Fe wnaeth yr Adain Draenio ofyn ar y dechrau am fwy o wybodaeth ynglŷn â dŵr wyneb. Anfonwyd yr ymateb ymgynghori ymlaen i'r ymgeisydd ac fe gafwyd mwy o fanylion am y dŵr wyneb ac fe basiwyd hyn ymlaen i'r Adain Draenio sydd wedi cadarnhau bod y manylion yn dderbyniol. Fe gafwyd sylwadau pellach, a bydd copi o'r ymateb yn mynd allan i'r ymgeisydd gyda'r rhybudd penderfyniad.

**Yr Amgylchedd Adeiledig**

Mae'r Adain Amgylchedd Adeiledig wedi cefnogi'r cais.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

39LPA799/CC

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Cynnig yw hwn i godi estyniad mewnlenwi yng nghefn yr adeilad presennol i greu ystafell gyfrifiaduron. Mae'r gwaith altro ac ymestyn a fwriedir yn briodol ac yn ffit i'r pwrpas ac ni fydd yn cael effaith ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

**7. Casgliad**

Mae'r gwaith ymestyn a'r estyniad a fwriedir yn y cefn i'w gweld yn dderbyniol yn y lleoliad hwn.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 28/10/10 ag 05/10/10 o dan cais cynllunio rhif. 39LPA799A/CC.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim

## 10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd

Dim

**12.16** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**


Rhif y Cais: **44LPA932/CC** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Head of Service (Housing)**
**Isle of Anglesey County Council.**
**Council Offices**
**Llangefni**
**Ynys Mon**
**LL77 7TW**

Creu mynedfa a man parcio newydd yn Formation of a new access and parking area at

9 Amlwch Rd, Rhosybol



**Pwyllgor Cynllunio: 01/12/2010**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (DO)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Y Gwasanaeth Tai sy'n cyflwyno'r cais.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r safle ger y briffordd sy'n rhedeg trwy bentref Rhosybol. Byngalo yng nghanol teras yw'r eiddo.

Y bwriad yw creu agoriad o 3m yn ffrynt yr eiddo a chreu lle caled i ganiatau i gerbydau fynd i mewn i ffrynt rhif 9. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys symud y fynedfa bresennol i gerddwyr ymhellach ar hyd y wal ffrynt. Bydd wal derfyn newydd yn cael ei chodi a'i gorffen gyda sbar Dash.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif faterion yma yw – a yw'r datblygiad yn dderbyniol yn y lleoliad hwn o safbwynt mwynderau ac wedi'i leoli'n addas o safbwynt diogelwch y briffordd.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 26 – Parcio Ceir

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad
Polisi FF12 – Parcio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi EN1 – Cyffredinol
Polisi TR10 – Safonau Parcio

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Rhoddwyd rhybudd safle ger y safle ynghyd â rhybuddion unigol i eiddo cyfagos. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau yw 17/11/10.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw lythyrau yn gwneud sylwadau wedi'u derbyn.

**Priffyrdd**

Mae’r Adain Priffyrdd wedi argymell rhoddi caniatâd amodol. Rhoddwyd sylwadau pellach gan yr Adain Priffyrdd i’r ymgeisydd yng nghyswllt y parcio ychwanegol, a bydd copi o’r ymateb yn cael ei anfon i’r ymgeisydd gyda’r rhybudd penderfyniad.

**Y Cyngor Cymuned**

Mae’r Cyngor Cymuned wedi argymell rhoi caniatâd.

**Draenio**

Mae’r Adran Draenio wedi gofyn am fwy o wybodaeth ynglŷn â dŵr wyneb. Mae’r ymgeisydd wedi rhoi’r wybodaeth hon ac yn awr yr ydym yn disgwyl am ymateb yr Adain Ddraenio i egluro a yw’r wybodaeth ychwanegol a gafwyd yn dderbyniol.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Dyluniad**

Bydd y wal flociau arfaethedig wedi’i gorffen gyda sbâr - yn toddi i mewn yn dda gyda’r ardal o gwmpas.

**Priffyrdd**

Nid ydym yn ystyried y bydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar ddiogelwch y briffordd.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod y fynedfa arfaethedig i gerbydau a’r lle parcio yn dderbyniol yn y lleoliad hwn.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 30/09/10 o dan cais cynllunio rhif. 44LPA932/CC.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**(03) Ni chaniateir ar unrhyw adeg i wal/gwrych/ffens derfyn bresennol y briffordd nac unrhyw ffin terfyn newydd a godir yn wynebu'r briffordd fod yn uwch nag 1 metr uwchlaw lefel cerbydlon y ffordd sirol gyfagos o naill ben ffin y safle â'r briffordd i'r llall ac ni chaniateir codi unrhyw beth uwch na hynny o fewn 2m. i'r cyfryw wal.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd er lles diogelwch y ffordd.

**(04) Rhaid cwblhau'r lle troi yn hollol unol â'r manylion ddangosir ar y cynllun sydd ynghlwm fel "wyneb bitmac" cyn dechrau'r defnydd ganiateir yma a'i gadw wedi hynny i'r pwrpasau hynny'n unig.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd er lles diogelwch y ffordd.

**(05) Rhaid cwblhau'r lle parcio ceir yn hollol unol â'r manylion ddangosir ar y cynllun sydd ynghlwm fel "wyneb bitmac" cyn dechrau'r defnydd ganiateir yma a'i gadw wedi hynny i'r pwrpasau hynny'n unig.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd er lles diogelwch y ffordd.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim

**12.17** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**


Rhif y Cais: **44LPA937/AD/CC** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Head of Service (Economic Development)**
**c/o Mr Matthew Jones**
**Imagemakers**
**The Old School**
**Sticklepath**
**Okehampton**
**Devon**
**EX20 2NJ**

Codi panel gwybodaeth ar dir ger Erection of an information panel on land adj

Maes Derwyn, Capel Parc



**Pwyllgor Cynllunio: 01/12/2010**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (JBR)**

**Argymhelliad:**

Caniatau.

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cais gan yr Awdurdod Lleol.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais yw hwn i godi panel gwybodaeth yn lle'r hen un ar dir yn ffrynt Maes Derwy, Capel Parc ger y blwch postio presennol.

**2. Mater(ion) Allweddol**

A yw lleolir panel gwybodaeth yn y lleoliad hwn yn dderbyniol o safbwynt mwynderau a diogelwch y brifforddd.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

1 – Polisi Cyffredinol
22 – Hysbysebion

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D4 – Lleoliad, Gosodiad a Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

SG10 – Hysbysebion.

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu’r adroddiad.
Cyngor Cymuned – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu’r adroddiad.
Priffyrdd – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu’r adroddiad.

Ymateb i Gyhoeddusrwydd

Dim wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu’r adroddiad.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim.

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

**Dyluniad**

Mae'r panel gwybodaeth arfaethedig yn un yn sefyll yn syth gyda lle i roi un panel graffig A1 ac 1 cabinet rhybudd A2. Bydd y panel wedi'i wneud o ddur gloyw a chot o bowdr lliw brown.

Nid ydym yn ystyried y bydd y panel gwybodaeth arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau'r ardal.

**Priffyrdd**

Nid ydym yn ystyried y bydd y panel gwybodaeth arfaethedig yn cael niweidiol ar ddiogelwch y briffordd.

## 7. Casgliad

Ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol.

## 8. Argymhelliad

**Ganiatau**

**(01) Mae caniatâd yn cael ei rhoi am gyfnod o 5 mlynedd yn cychwyn ar ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: I gydymffurfio gyda Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 2007.

**(02) Rhaid cadw unrhyw hysbysebion a arddangosir, ac unrhyw safle a ddefnyddir i arddangos hysbysebion, yn lan a thaclus ac wrth fodd yr awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(03) Rhaid cadw unrhyw strwythur neu hordin a godir neu a ddefnyddir er mwyn arddangos hysbysebion mewn cyflwr diogel.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(04) Lle bo angen tynnu hysbyseb i lawr dan y Rheoliadau hyn, rhaid eu tynnu i lawr mewn ffordd a fydd wrth fodd yr awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(05) Ni chaniateir arddangos hysbyseb heb ganiatâd perchennog y safle neu unrhyw berson arall a budd yn y safle sydd a hawl i roi caniatâd.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(06) Ni chaniateir gosod nac arddangos yr hysbyseb mewn modd a fydd yn cuddio, neu'n amharu ar ddehongliad unrhyw arwydd traffig ffordd.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder ac hefyd yn cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd er lles diogelwch cerbydau a cherddwyr.

**(07) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 29.10.10 o dan cais cynllunio rhif 44LPA937/AD/CC.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim.

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim.

**12.18** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **47LPA469G/AD/CC** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Head of Services (Economic Development)**
**c/o Imagemakers**
**The Old School**
**Sticklepath**
**Okehampton**
**Devon**
**EX20 2NJ**

Codi hysbysfwrdd gwybodaeth wrth ymyl | Erection of an information board near

Melin Llynnon, Llanddeusant



**Pwyllgor Cynllunio: 01/12/2010**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(EH)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cais gan yr Awdurdod Lleol.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais yw hwn i godi panel gwybodaeth ar dir ger Melin Llynnon, Llanddeusant.

**2. Mater(ion) Allweddol**

A fydd lleoli'r panel gwybodaeth yn y lleoliad hwn yn dderbyniol o safbwynt mwynderau a phriffyrdd.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

1 – Polisi Cyffredinol
22 – Hysbysebion

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D4 – Lleoliad, Gosodiad a Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

SG10 – Hysbysebion

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Cyngor Cymuned – Sylwadau.

Priffyrdd – Dim ymateb wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais trwy osod rhybudd safle ger y safle. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau yw 30 Tachwedd 2010, ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd dim byd wedi'i dderbyn.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

28LPA469/DC – Defnyddio adeiladau allanol i bwrpasau arddangos, caffi, swyddfa'r melinydd a thoiledau yn Felin Llynnon, Llanddeusant.

28LPA469A/DC - Llunio maes parcio a gwneud gwaith altro i'r fynedfa bresennol ym Melin Llynnon, Llanddeusant. Dim gwrthwynebiad - 19.04.84

28LPA469B/DC – Fel uchod. Dim gwrthwynebiad – 19.04.85.

47LPA469C/LB/DC – Caniatâd Adeilad Rhestredig i addasu'r adeiladau allanol presennol i ddarparu canolfan ddehongli, toiledau a chaffi ym Melin Llynnon, Llanddeusant. Dim gwrthwynebiad – 04.09.85.

47LPA469D/DC – Llunio maes parcio a gwaith cysylltiol ym Melin Llynnon, Llanddeusant. Dim gwrthwynebiad 10.02.88.

47LPA469E/DC – Addasu adeilad amaethyddol yn le storio grawn a gweithdy melinydd ym Melin Llynnon, Llanddeusant. Dim gwrthwynebiad.

47LPA469F/DC – Codi stor ym Melin Llynnon, Llanddeusant. Dim gwrthwynebiad 22.07.88.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Dyluniad** - Bydd y panel gwybodaeth arfaethedig o ddyluniad lectern ac wedi'i wneud o ddur gloyw gyda chôt bowdr lliw brown.

Nid ydym yn ystyried y bydd y panel gwybodaeth arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau'r ardal.

**Priffyrdd** – Nid yw'n cael ei ystyried y bydd y panel gwybodaeth arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch y ffordd.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Mae caniatâd yn cael ei rhoi am gyfnod o 5 mlynedd yn cychwyn ar ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: I gydymffurfio gyda Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 2007.

**(02) Rhaid cadw unrhyw hysbysebion a arddangosir, ac unrhyw safle a ddefnyddir i arddangos hysbysebion, yn lan a thaclus ac wrth fodd yr awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(03) Rhaid cadw unrhyw strwythur neu hordin a godir neu a ddefnyddir er mwyn arddangos hysbysebion mewn cyflwr diogel.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(04) Lle bo angen tynnu hysbyseb i lawr dan y Rheoliadau hyn, rhaid eu tynnu i lawr mewn**

**ffordd a fydd wrth fodd yr awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(05) Ni chaniateir arddangos hysbyseb heb ganiatâd perchennog y safle neu unrhyw berson arall a budd yn y safle sydd a hawl i roi caniatâd.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(06) Ni chaniateir gosod nac arddangos yr hysbyseb mewn modd a fydd yn cuddio, neu'n amharu ar ddehongliad unrhyw arwydd traffig ffordd.**

Rheswm: Sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder ac hefyd yn cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd er lles diogelwch cerbydau a cherddwyr.

**(07) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 29.10.10 o dan cais cynllunio rhif. 47LPA469D/AD/CC.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim.

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim.